# <u>Ymchwiliad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i Grwpiau Trawsbleidiol</u>

## Ymateb Grŵp Llafur Cymru

### Medi 2022

Mae Grŵp Llafur Cymru yn y Senedd yn croesawu'r cyfle i roi adborth fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor i Grwpiau Trawsbleidiol.

Credwn fod Grwpiau Trawsbleidiol yn parhau i gynnig cyfle gwerthfawr i Aelodau ymgysylltu ag ystod eang o feysydd polisi cyhoeddus a'r sefydliadau a'r unigolion sy'n ymwneud â'r meysydd hynny.

Mae'r gwaith ymgysylltu hwn yn helpu i godi proffil y pynciau hynny yn y Senedd a llywio gwaith yr Aelodau mewn busnes ffurfiol ac yn eu hetholaethau neu eu rhanbarthau.

Gweler isod farn y Grŵp ar y pedwar cwestiwn sydd yn y ddogfen ymgynghori:

1. **Beth yw eich barn am y trefniadau ar gyfer Grwpiau Trawsbleidiol yn y Senedd?**

Credwn fod y trefniadau presennol, gan gynnwys y 'Rheolau ynghylch gweithredu Grwpiau Trawsbleidiol' yn gyffredinol yn parhau i sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng tryloywder ac ymarferoldeb i'r rhai sy'n gyfrifol am Grwpiau Trawsbleidiol a'r rhai sy'n cymryd rhan ynddynt.

Mae'r amserlenni ar gyfer adroddiadau sydd wedi'u cynnwys yn y rheolau hefyd yn parhau i fod yn briodol ac yn rhesymol, yn ein barn ni.

Mae'r gallu i gyfarfod yn rhithwir yn y blynyddoedd diwethaf wedi bod o fudd enfawr i Grwpiau Trawsbleidiol, gan sicrhau bod mwy o bobl yn gallu bod yn bresennol, agor mwy o slotiau amser ar gyfer cyfarfodydd a dileu'r angen i lawer o randdeiliaid deithio'n bell er mwyn bod yn bresennol.

Rydym o'r farn y dylai'r opsiwn i gynnal cyfarfodydd Grwpiau Trawsbleidiol yn rhithwir neu mewn fformat hybrid barhau i fod ar gael i'r holl Grwpiau Trawsbleidiol.

O ran rheoli cyfarfodydd Grwpiau Trawsbleidiol, byddem yn gwrthwynebu unrhyw gynnig y dylid disgwyl i swyddfeydd Aelodau o'r Senedd weithredu fel ysgrifenyddiaethau ar gyfer Grwpiau Trawsbleidiol.

Mae Aelodau yn aml yn gadeiryddion ar sawl Grŵp Trawsbleidiol a byddai unrhyw ddisgwyliad y dylai eu staff weithredu fel ysgrifenyddiaeth ar eu cyfer yn rhoi pwysau ychwanegol sylweddol ar swyddfeydd yr Aelodau ar adeg pan maent eisoes yn wynebu llwythi gwaith trwm ac adnoddau annigonol.

Credwn yn gryf y dylai'r cyfrifoldeb am ysgrifenyddiaeth y grwpiau hyn aros gyda rhanddeiliaid, sy'n dod â chysylltiadau ac arbenigedd gwerthfawr i'r maes hwn.

2. **A oes gennych unrhyw bryderon neu ydych wedi cael unrhyw broblemau â'r trefniadau? Os felly, beth?**

Mae defnyddio cyfarfodydd rhithwir ar gyfer Grwpiau Trawsbleidiol, er bod croeso mawr iddynt mewn sawl ffordd, yn her o ran sicrhau gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ym mhob cyfarfod.

Mae cyfieithu Cymraeg i Saesneg ar gael fel mater o drefn ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn y Senedd ond mae wedi bod yn amlwg yn absennol mewn Grwpiau Trawsbleidiol rhithwir.

Credwn y dylid mynd i'r afael â hyn mewn ffordd systematig. Byddem yn croesawu rhagor o waith gyda Grwpiau Trawsbleidiol a'u hysgrifenyddiaethau i sicrhau bod yr adnoddau neu'r atebion technegol yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar gael ym mhob cyfarfod.

Byddai'r Grŵp hefyd yn croesawu rhagor o waith i hyrwyddo gwaith Grwpiau Trawsbleidiol a'i gwneud yn haws dod o hyd i fanylion cyfarfodydd.

Ar hyn o bryd, gwneir hyn yn bennaf drwy wahoddiadau e-bost, a all gael eu colli weithiau ymhlith y llu o negeseuon e-bost y mae Aelodau yn eu cael bob dydd.

Teimlwn y gallai rhoi manylion ar galendr canolog helpu i annog presenoldeb, ei gwneud yn haws i ysgrifenyddiaethau osgoi gwrthdaro â Grwpiau Trawsbleidiol eraill neu ddigwyddiadau eraill y Senedd a helpu i wneud cydgysylltu dyddiaduron prysur Aelodau yn haws i bawb.

Gallai'r opsiynau gynnwys ychwanegu manylion llawn cyfarfodydd y Grwpiau Trawsbleidiol at Galendr y Senedd ar y fewnrwyd a/neu'r wefan allanol, a fyddai'n dod â'r holl gyfarfodydd ynghyd mewn un man hygyrch.

3. **A yw'r rheolau presennol yn adlewyrchu swyddogaethau a chyfrifoldebau Grwpiau Trawsbleidiol, fel yr ydych yn eu deall?**

Er ein bod yn credu bod y rheolau yn deg, yn gynhwysfawr ac yn gymesur ar y cyfan, mae rhai meysydd y teimlwn y dylid rhoi sylw iddynt.

O ran y trothwy ar gyfer ffurfio Grwpiau Trawsbleidiol, credwn y gallai'r gofyniad i gael Aelodau o dri grŵp plaid o leiaf arwain at ganlyniadau anfwriadol yn y Senedd bresennol ac yn y dyfodol.

Yn y Senedd ddiwethaf, ni achosodd y gofyniad hwn unrhyw anawsterau oherwydd nifer y Grwpiau Pleidiau a ffurfiwyd yn ystod y tymor pum mlynedd.

Fodd bynnag, dim ond tri Grŵp Plaid sydd gennym yn y Senedd hon ac felly yn y bôn gall pob grŵp plaid roi feto ar greu Grŵp Trawsbleidiol o dan y rheolau presennol.

Yn ein barn ni, cynlluniwyd grwpiau trawsbleidiol i ddwyn ynghyd Aelodau o wahanol Grwpiau a safbwyntiau ar draws y Senedd, ond nid o reidrwydd pob Grŵp neu safbwynt. Fe'u gelwir yn fwriadol yn grwpiau 'Trawsbleidiol' ac nid grwpiau 'Hollbleidiol' am y rheswm hwn.

Er bod yr angen am gefnogaeth eang i sefydlu Grŵp Trawsbleidiol yn parhau i fod yn rhagofyniad pwysig, mae'r rheolau presennol yn gwneud yr amcan hwn yn anodd lle gall un grŵp plaid yn y bôn atal eraill rhag cyfrannu at ein proses ddemocrataidd trwy waith Grwpiau Trawsbleidiol.

Er enghraifft, efallai y bydd achosion yn y dyfodol pan fydd cynnig i sefydlu Grŵp Trawsbleidiol ar fater cymdeithasol pwysig, ond efallai na fydd hyn yn dderbyniol i un o'r tri Grŵp a gynrychiolir yn y Senedd.

Gall yr un Grŵp hwn hefyd gynrychioli lleiafrif bach o gyfanswm aelodaeth y Senedd, tra gallai mwyafrif llethol yr Aelodau fod o blaid sefydlu'r Grŵp Trawsbleidiol dan sylw.

Er mwyn mynd i’r afael â’r pryderon hyn, byddem yn awgrymu bod y rheolau’n cael eu diwygio i leihau nifer y bobl sydd eu hangen i ffurfio Grŵp Trawsbleidiol o Aelodau tri grŵp gwleidyddol o leiaf i Aelodau o fwy na dwy blaid wleidyddol.

Credwn y dylai hyn gynnwys Aelodau annibynnol neu Aelodau sy’n cynrychioli plaid wleidyddol arall nad yw’n cyrraedd trothwy’r Senedd ar gyfer ffurfio grŵp plaid swyddogol (tri Aelod ar hyn o bryd).

Teimlwn ei bod yn egwyddor bwysig nad yw Aelodau annibynnol neu Aelodau plaid nad ydynt yn cyrraedd y trothwy i ffurfio grŵp yn cael eu heithrio a’u bod yn gallu cyfrannu at ffurfio Grwpiau Trawsbleidiol.

Byddai hyn hefyd yn helpu i fynd i’r afael ag amgylchiadau posibl yn y dyfodol pan fydd mwy o Aelodau annibynnol neu Aelodau o bleidiau llai yn cael eu hethol i’r Senedd.

O ran y rheolau ariannol, gall y ffaith nad yw Grwpiau Trawsbleidiol yn cael eu hystyried yn rhan ffurfiol o’n gwaith fel Aelodau hefyd achosi problemau.

Mae'r rheol hon yn golygu na all Aelodau hawlio unrhyw gostau teithio neu wariant arall sy'n ymwneud â Grwpiau Trawsbleidiol o'u lwfansau.

O ganlyniad i hynny, mae'n bosibl y bydd Aelodau'n cael eu rhwystro rhag ymgymryd yn llawn â rhywfaint o waith Grwpiau Trawsbleidiol, megis teithio i ymweliad allanol a drefnwyd gan y grŵp a allai olygu teithio sylweddol neu aros dros nos.

Mae hefyd yn golygu bod perygl y gall Grwpiau Trawsbleidiol ddod yn ddibynnol ar gyllid allanol. Gallai dibyniaeth o’r fath leihau tryloywder Grwpiau Trawsbleidiol, neu wneud Aelodau neu’r Senedd yn agored i risg i enw da yn anfwriadol.

Credwn fod y canllawiau presennol ar Deithio Estynedig i Aelodau, fel y’u nodir yn y Penderfyniad, yn darparu model ar gyfer system wahanol y gellid ei chymhwyso i’r rheolau ar gyfer Grwpiau Trawsbleidiol.

Yn fwy cyffredinol, er ein bod wrth gwrs yn derbyn yn llwyr yr angen i sicrhau rheolau cadarn ar faterion ariannol, mewn gwirionedd nid yw mwyafrif y cymorth ariannol y mae’r rhan fwyaf o Grwpiau Trawsbleidiol yn ei gael yn aml yn ymestyn y tu hwnt i dalu am luniaeth ar gyfer cyfarfodydd.

4. **A oes unrhyw gamau pellach y gellid eu cymryd i wella tryloywder ar gyfer Grwpiau Trawsbleidiol? Os felly, beth?**

Mae’r Grŵp o’r farn bod angen gwneud mwy i sicrhau bod cyfarfodydd Grwpiau Trawsbleidiol yn cael eu hysbysebu’n dda ac yn agored i bawb, yn hytrach na bod yn gyfarfodydd caeedig y mae nifer fach o’r ‘unigolion arferol’ yn mynd iddynt. Byddai hyn yn gwneud y drefn yn fwy tryloyw, yn ein barn ni.

Mae’r Gofrestr o Grwpiau Trawsbleidiol ar wefan y Senedd yn cynnwys manylion cyfyngedig iawn megis nod cyffredinol y Grwpiau Trawsbleidiol ac enwau’r Cadeirydd, yr Aelodau a’r Ysgrifenyddion, ond mae’r dudalen yn brin o fanylion pwysig ac mae wedi’i chuddio braidd.

Nid yw'n ymddangos bod y dudalen hon, er enghraifft, yn cynnwys manylion cyfarfodydd nesaf y Grwpiau Trawsbleidiol na hyd yn oed fanylion cyswllt yr ysgrifenyddiaethau.

Yn ogystal â’n hawgrym o galendr canolog fel yr amlinellwyd yn ein hymateb i gwestiwn 2 uchod, teimlwn y gellid gwneud mwy o ddefnydd o sianeli cyfryngau cymdeithasol yr Aelodau a’r Senedd i hyrwyddo cyfarfodydd sydd ar ddod, yn ogystal â sgriniau gwybodaeth yn ardaloedd cyhoeddus y Senedd.